Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd

Hysbysiad o Ddyrannu Cymhorthdal

Cyflwynir cymhorthdal ar gyfer dau gynllun:

1. Grant ailddatblygu cyfalaf; a
2. Contract am wasanaethau a ddyrannir i Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd

Mae dibenion y cynlluniau hyn fel a ganlyn:

1. Cyflwynir grant ailddatblygu cyfalaf ar gyfer adeilad Theatr Clwyd sy’n eiddo i Gyngor Sir y Fflint gyda thrwydded i feddiannu i Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd.

   Cyflwynir y grant hwn mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a bydd yn darparu’r cyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu adeilad Theatr Clwyd.

2. Dyrennir contract am wasanaethau i Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd ar gyfer darparu gwasanaethau diwylliannol a cherddorol er lles y gymuned leol, gan gynnwys gwaith cymunedol creadigol i gefnogi iechyd a lles y boblogaeth leol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Datblygu cynyrchiadau a rhaglenni;
- Prosiectau cymunedol - canfod ffyrdd newydd a chreadigol o ymgysylltu â chymunedau difreintiedig;
- Gwella proffil yr iaith Gymraeg;
- Datblygu haenau gwaith arloesol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cefnogi lles teuluoedd o fewn eu gofal;
- Nodi meysydd ymgysylltu newydd sy’n cefnogi’r ddarpariaeth gerddoriaeth mewn ysgolion;
- Denu ymwelwyr i Sir y Fflint a chyfrannu at yr economi lleol mewn modd cadarnhaol; a
- Chefnogi’r ymdrechion i gyflawni’r nodau lles ar gyfer Cymru a’r amcanion lles lleol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pwrpas y cymhorthdal yw datblygu a gweithredu seilwaith ar gyfer cynnal diwylliant a threftadaeth.

Buddiolwyr yr elfen gwaith cyfalaf yw Cyngor Sir y Fflint (perchennog yr ased) a Theatr Clwyd (meddiannydd y safle) a derbynnydd / buddiolwr y cyllid grant / contract am wasanaethau yw CIC Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd.

Cynigir y cyllid hwn gyda’r disgwyl y bydd yn darparu lles cymunedol; cyflawni mynediad mwy cyfartal at y celfyddydau; helpu i wella ansawdd gweithgarwch celfyddydol; gweithredu fel cymhelliant i ddenu buddsoddiadau eraill yn y maes celfyddydau; helpu sefydliadau celfyddydol i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol; darparu proses fuddsoddi

raddol i annog arfer orau o ran cynllunio, caffael a darparu prosiectau cyfalaf; gan gyflawni'r safonau gorau posibl (yn arbennig o ran ansawdd gwaith dylunio ac adeiladu'r prosiectau adeiladu).

Mae sawl ffynhonnell cyllid gan gynnwys y Cyngor, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Celfyddydau, ac mae bob un wedi cynnal diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r ddarpariaeth a'r lefelau cyllid, a dyrennir y cyllid hwn fel rhan o nod polisi cyhoeddus i ysgogi prosiectau celfyddydol drwy weinyddiaeth ddatganoledig i gynhyrchu rhagor o fynediad at brosiectau o'r fath gan y gymuned leol. Mae'r cynllun yn anelu at adfer mynediad cyhoeddus drwy fudd-daliadau cyfalaf wedi'u targedu.

Mae'r cyllid a ddyrannir ar gyfer y prosiect yn seiliedig ar ragolygon bwlch hyfywedd, yn unol â'r trefniadau Cymorth Gwladwriaethol sydd ar waith yn yr UE (Erthygl 53 y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol - cefnogaeth ar gyfer cynnal diwylliant a threftadaeth).

Mae cyfyngiadau Erthygl 53 yn y Rheoliad ar gyfer uchafsymiau cefnogaeth a lefelau ymyrraeth yn erbyn costau eisoes yn mynd i'r afael â chymesuredd ac angen. Er nad yw'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol o fewn cynllun rheoli cymhorthdal y DU, nodwn fod dyraniadau a wneir dan y Rheoliad yn destun yr un Egwyddorion Cyffredin dan Erthygl 3.4 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Pennwyd bod y cyfyngiadau yn Erthygl 53 o'r Rheoliad yn briodol ar gyfer buddsoddiadau lleol diwylliannol at ddefnydd a mynediad y cyhoedd, fel yr hyn a welir yn y Prosiect.